Cymdeithas Melinau Cymru / Welsh Mills Society

www.welshmills.org www.facebook.com/Welsh-Mills-Society

Ffurfiwyd Cymdeithas Melinau Cymru (CMC) yn 1984, er mwyn astudio, cofnodi, dehongli a rhoi cyhoeddusrwydd i felinau gwynt a dŵr Cymru; cynnig cyngor ar gadwraeth a'r defnydd ohonynt; a chefnogi melinwyr wrth eu gwaith.

Cymdeithas gydfuddiannol, nid elusen gofrestredig, yw CMC, felly dyw hi ddim yn derbyn arian gan y llywodraeth. Mae'r Gymdeithas yn dibynnu ar dan ysgrifiadau'r aelodau a'n hymdrechion i godi arian, a gwirfoddolwyr di-dâl sy'n gwneud y gwaith.

Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd, gan fawr obeithio y byddwch yn barod i ymuno â ni a'n helpu i warchod rhan mor bwysig o dreftadaeth Cymru. Rhestrir manteision ymaelodi isod, ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ysgrifennydd:
Hilary Malaws, Y Felin, Tynygraig, Ystrad Meurig, Ceredigion SY25 6AE
e-bost: Hilary.Malaws@btinternet.com

I ymuno â'r Gymdeithas, llenwch y ffurflen sy'n dilyn, os gwelwch yn dda.

Mae'r tâl aelodaeth yn cynnwys:

- Dau gyfarfod, yn y Gwanwyn a'r Hydref, mewn gwahanol rannau o Gymru a'r Gororau, gan gynnwys darlithoedd ac ymweliadau â melinau sydd dim ar agor i'r cyhoedd fel arfer.
- Teithiau achlysurol i astudio melinau y tu allan i Gymru. Yn ddiweddar teithiwyd i Iwerddon, Dorset, Ynys Manaw a Gwlad yr Haf.
- Cylchlythyr chwarterol yn cynnwys newyddion a gwybodaeth.
- Cylchgrawn, *Melin*, a gyhoeddir yn flynyddol fel arfer, yn cynnwys astudiaethau manwl o felinau a phynciau perthnasol.
- Cyfarfodydd Fforwm achlysurol, yn bennaf ar gyfer perchenogion a rheolwyr melinau, ond mae croeso i bob aelod gymrydrhan, i drafod, rhannu profiad a'r atebion i broblemau.
- Cyfleiymchwilwyr a pherchenogion fanteisio ar help ac arweiniadar bob agwedd o felinau a gwaith melin.
- Help a chyngor ar sut i ddod o hyd i felinau ar werth, neuddarnau o offer a gwasanaethau.
- Cymorth a chyngor ymarferol ar sut i gynnal neu atgyweiri o melin gan ein tîm o wirfoddolwyr, y *Mucky Mills Gang.*
- Cyfleiymuno â'r *Mucky Mills Gang* a chymryd rhan mewn prosiectau ymarferol – clirio cafn melin neu adnewydd u peiriannau, er enghraifft.
- Cyfleielwa o'n cronfa fechan – Cronfa Adnewyddu Melinau – a all hefyd fod o fudd wrth gynnig am grantiau mwy o ffynonellaueraill.
- Cyfleigymryd rhan mewn prosiectau cofnod i melinau – lleoli a rhestrurhodau dŵr ar ffermydd, er enghraifft, a chofnodi termau lleol sy'n ymwneud â melinau.
- Sesiynau hyfforddi achlysurol, gan gynnwys cynnal a rhedeg melin ŷd, a'r technegau cofnodi diweddaraf.
- Yn olaf, ond nid yn lleiaf, cyfleirannu profiad a gwybodaeth ag aelodau eraill o'r Gymdeithas, wyneb yn wyneb a thrwy dudalennau Facebook a'n gwefan.